Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Awst 2011

# Diwrnod y Gaiman

## 1874 - 2011




Roedd y 14eg o Awst yn bwysig iawn i drigolion y Gaiman, gan mai dyma ddiwrnod pen blwydd y pentref. Yn 1874, naw mlynedd ar ôl iddyn nhw gyrraedd Patagonia ar fwrdd y Mimosa, ymsefydlodd y Cymry yno. Adeiladodd David Roberts y tŷ cyntaf yn yr un flwyddyn, ac mae i'w weld heddiw ar stryd Juan Evans. Mae gwahanol ddehongliadau i'r enw 'Gaiman' - mae rhai'n dweud mai 'lle cul' yw'r ystyr, ac eraill 'carreg hogi'. Mae'n debyg mai 'Pentref sydyn' oedd y Cymry yn ei alw, gan ei fod yn datblygu'n gyflym iawn.

Erbyn hyn, mae tua 10,000 o bobl yn byw yn y Gaiman. A bu llawer ohonyn nhw'n dathlu pen blwydd y pentref yn 137 oed!




Cafodd nifer o ddigwyddiadau eu cynnal dros sawl wythnos - helfa drysor o amgylch y Gaiman, dawns gan Ysgol 100, a chafodd rhai pentrefwyr eu hanrhydeddu mewn noson arbennig. Ar y 12fed o Awst, cynhaliodd Ysgol Feithrin y Gaiman gyngerdd yn y ganolfan hamdden, lle cafodd rhieni a chyfeillion eu gwahodd i fwynhau noson o ganu, adrodd, a dawnsio gan y plant - ac roedd cyfle iddyn nhw ddawnsio hefyd, mewn twmpath!



Y prynhawn canlynol, cynhaliodd côr y Gaiman ddathliad yn y ganolfan hamdden hefyd. Ar ôl gweini te a chacennau, roedd deuawd rhwng Ffion Bevan (ffidil) a Hector Ariel (piano), unawdau gan Sylvia Baldor, Marcelo Griffiths, a Billy Hughes, a chanodd Côr Merched Edith Macdonald a'r Côr Cymysg ddetholiad o ganeuon.



Cafodd yr orymdaith flynyddol ei chynnal drwy'r Gaiman ar fore Sul, yr 21ain. Ar ôl yr acto, gorymdeithiodd gwahanol sefydliadau ar hyd Eugenio Tello, gan gynnwys Ysgol Camwy, Cymdeithas Dewi Sant, a'r Ysgol Feithrin, cyn i'r ceffylau basio ar hyd y stryd. Roedd hi'n fore heulog, a'r stryd yn lliwgar wrth i nifer o bobl ddod i wylio'r orymdaith.

Pen Blwydd Llawen i'r Gaiman!

Lois Dafydd

# Simposio Corau'r Byd 2011

9° SIMPOSIO
MUNDIAL
DE MÚSICA CORAL

Porth Madryn oedd cartref Simposio Corau'r Byd 2011. Cafodd y cyntaf ei gynnal yn Fienna, Awstria yn 1987, ac eleni daeth cynrychiolwyr o dros chwedeg o wledydd i Borth Madryn yn ystod wythnos gyntaf mis Awst ar gyfer y nawfed Simposio. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei gynnal yn Ne America.

Gan nad oedd awyrennau'n hedfan i Batagonia, cafodd y Simposio ei ohirio am ddiwrnod er mwyn sicrhau digon o amser i'r cerddorion gyrraedd Madryn. Heidiodd cannoedd i'r cyngerdd agoriadol yn y Gampfa Ddinesig ar nos Iau, y 4ydd o Awst. Doedd dim un sedd wag, a phobl yn sefyll ar yr ochrau!

Ar ôl agor y cyngerdd – a'r Simposio – yn swyddogol, perfformiodd côr merched o Ganada, 'Lady Cove Women's Choir' ddetholiad o ganeuon. Cafodd y dorf ei swyno gan leisiau'r merched, a'r gymeradwyaeth yn fyddarol! Estynnodd trefnydd y Simposio, Daniel Garavano, groeso cynnes i bawb, gan ddiolch i'w deulu a'i gydweithwyr am eu gwaith a'u cefnogaeth.



Agorodd Cerddorfa Symffonig Neuquén ail hanner y cyngerdd, dan arweiniad Andrés Tolcachir, cyn i 'Gôr Unedig Chubut' ymuno â nhw ar y llwyfan i ganu gwaith a gyfansoddodd Hector Ariel Macdonald yn arbennig at yr achlysur. Roedd y gwaith yn olrhain hanes Patagonia, ac yn cynnwys cerddoriaeth Archentaidd – y tango a'r zamba – darn o gerddoriaeth Tehuelche, a threfniant arbennig o'r emyn Cymraeg 'Pantyfedwen'. Roedd aelodau'r côr - dau gant ohonyn nhw - yn gantorion o Fadryn, Trelew, Gaiman, Rawson, Esquel, Comodoro, Dolavon, Sarmiento, a Threvelin, gyda Manuela Tomá, Billy Hughes, a Marcelo Griffiths yn canu unawdau, a dawnswyr o Drelew a Phorth Madryn yn perfformio ar y llawr. Cododd y dorf ar ei thraed i gymeradwyo'r holl berfformwyr ar ddiwedd cyngerdd!

Clywyd cerddoriaeth o bedwar ban byd dros y chwe diwrnod canlynol, a chyfle i nifer o drigolion Dyffryn Camwy serennu mewn cyngherddau a gweithdai'r Simposio. Ymddangosodd côr Ysgol yr Hendre ar lwyfan Theatr Verdi Trelew, dawnsiodd Grŵp Gwanwyn, a chanodd Côr Cymysg y Gaiman 'Calon Lân' mewn gweithdy o ganu cynulleidfaol ym Madryn. Cafodd gwahanol gyngherddau eu cynnal ar hyd y dyffryn, gyda chôr o'r Philipi yn perfformio yng Nghapel Bethel y Gaiman ar y noson olaf.





Llongyfarchiadau i Borth Madryn ar wythnos benigamp, ac am roi Dyffryn Camwy ar y map!





# Holi Hector Ariel...

**1. Ble cawsoch chi eich geni?**

*Yn Ysbyty TRELEW ond byw erioed yn Gaiman.*

**2. Beth yw eich atgof cynharaf?**

*Mynd gyda Mam a Mirna mewn Fiat 600 i'r Andes.*

**3. Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?** *Yn y cartref.*

**4. Beth yw eich hoff air Cymraeg?** *Allweddellau!!*

**5. Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?**

*Cyfansoddi, trefnu a recordio.*

**6. Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud?** *Ateb cwestiynau...!! Ha ha!*

**7. Pryd ddechreuoch chi ganu'r piano, a chyfansoddi?**

*Dechreuais ganu'r piano'n ifanc iawn, o gwmpas 7 oed.*
*Cyfansoddi tua 15 oed.*

**8. Sawl offeryn ydych chi'n eu canu?**

*Piano, gitar, charango, bas, drymiau.*

**9. O ble ydych chi'n cael eich ysbrydoliaeth?**

*Dwi'n hoffi edrych ar yr awyr, cymylau, bryniau, dyfrhau´r blodau, gwylio´r lleuad a'r gorwel..., ond yn bwysig iawn, meddwl a dadansoddi gwahanol sefyllfaoedd a joggio posibiliadau...*

**10. Sut brofiad ydy hi i glywed eich gwaith yn cael ei berfformio?**

*Os ydy o'n dda... mwynhau.*

**11. Beth yw eich hoff lyfr?** ***Y Beibl.***

**12. Beth yw eich hoff/cas fwyd?** ***Dwi'n hoffi popeth.***

**13. Ble mae eich hoff le yn y byd?** ***Yn y stiwdio! Ha ha!!***

# Llywydd Newydd Cymdeithas Dewi Sant



**Cafodd Graciela Colosante ei hethol yn llywydd newydd Cymdeithas Dewi Sant yn eu cyfarfod blynyddol yn ddiweddar. Mae hi'n olynu Wendell Davies, oedd wrth y llyw am ddeng mlynedd.**

**Diolch i Wendell am ei holl waith dros y blynyddoedd, a phob hwyl i Graciela!**

# Fy mhrofiad yng Nghymru



Cyrhaeddais i yn Llundain ar 27 Ebrill. Roedd fy ffleit yn hwyr, felly es i gael fy magiau. Ond welais i mo'r bagiau! Ble mae fy mag? Ces i fy rhwystro yn y maes awyr gyda chwech person arall. Roedd y cwmni wedi colli ein bagiau yn Madrid, do'n i ddim yn gwybod beth i'w wneud! Ond gwnes i ffrind da. Shane ar yr awyren, a helpodd fi gyda'r papurau i gael y bagiau yn ôl. Wedi datrys y broblem, aeth popeth yn wych! Roedd Mr. Glyn Evans yn aros amdana i yn y maes awyr gyda gwên fawr a chofleidiodd fi.

Aethon ni i chwilio am y gyrrwr o'r coleg, Mr. Valentine. Roedd Mr. Evans mor ddiolchgar i Shane, felly aethom ag o i Fryste! Ar y ffordd stopion ni i gael swper am chwech o'r gloch y pnawn - pysgod a sglodion wedi'u ffrio gyda phys. Rhyw fath o filanesa! Ac wedyn teithio i Lanymddyfri. Roedd y ffordd yn neis iawn, coed, bryniau a llawer o anifeiliaid. Roedd pobl yn gyrru ar ochr arall y ffordd a'r car - ro'n ni'n teimlo'n benysgafn ar y dechrau!

Pan gyrhaeddon ni'r coleg, wnes i gyfarfod y merched o'r tŷ newydd. Roedden nhw'n siarad ar unwaith ac yn gyflym iawn gyda fi, fel cawod o gwestiynau! Es i i'r coleg dim ond am un diwrnod yr wythnos gyntaf, oherwydd ein bod wedi cael gwyliau ar gyfer y briodas frenhinol. Gwelais i'r coleg a chwrdd â'r athrawon. Dewisais fy nosbarthiadau: Cymraeg, Sbaeneg, Saesneg, Drama a Thenis. Roedd pob dosbarth yn ddoniol ac yn ddifyr iawn! Bob bore dydd Gwener, ro'n i'n mynd i siarad a dysgu dawnsio gwerin gyda myfyrwyr iau (a chiwt!) Ysgol Gynradd Rhys Pritchard. Treuliais i lawer o amser gyda nhw, wnaethon ni baratoi dwy ddawns a chân yn Sbaeneg ar gyfer Tywysog Cymru. Chwaraeon ni lot o gemau a phaentio hefyd.

Teithiais i lawer gyda'r dosbarth drama i weld sioeau cerdd o bob math. Bues i yn yr Almaen yn y gwyliau yn nhŷ Caroline Reuter, fy ffrind. Ces i amser ardderchog! Mwy o fwyd da, sŵ mawr, amgueddfeydd, siopa, a nabod mwy o bobl! Dychwelais i Goleg Llanymddyfri a dywedodd yr athro Cymraeg ei fod am ddysgu dawnsio gwerin i'r myfyrwyr! Felly dechreuon ni ddawnsio yn Costa, siop goffi'r coleg! Un diwrnod, dywedodd Mr. Evans wrtha i fod grŵp dawnsio gwerin 'Tipyn o Bopeth' eisiau dawnsio gyda ni, yn Ffrainc! Felly, bues i yno hefyd! Teithion ni mewn fferi i Lydaw, Lesneven. Arhosais i yn nhŷ Poisson, roedden nhw'n neis iawn! Maen nhw'n siarad Ffrangeg, tipyn o Sbaeneg, a thipyn o Saesneg. Ces i amser ffantastig yna! Dysgais lawer o draddodiadau fel coginio, dawnsio Llydaweg, a siarad tipyn o Lydaweg - mae rhai geiriau tebyg i'r Gymraeg. Roedd y grŵp dawnsio gwerin yn wych! Dy'n ni wedi dawnsio ar y strydoedd, eglwysi, cestyll, ffeiriau a Fest Noz.




Des i'n ôl i'r tŷ yn Nghymru lle roeddwn yn mynd yn aml i'r dref gyda'r merched. Cerddon ni lawer yn ystod y cyfnod i weld yr holl dref a'r castell. Bues i ym Mannau Brycheiniog gyda Gruff ac Eifiona Roberts, a siarad llawer am bopeth! Chefais i ddim yn cyfle i gwrdd â Llinos Griffin ym Mhatagonia, ond es i weld hi yng Ngogledd Cymru, Llanfrothen! Teithiais ar y trên trwy ddwyrain Cymru cyn cyrraedd Bangor, neis iawn! Buon ni yn Mhorthmadog, am dro i Bortmeirion, ar lan y môr, a gwelon ni gestyll hardd! Y penwythnos wedyn, aethon ni i Iwerddon. Ces i amser gwych! Dw i wedi gwneud ffrind newydd!

Rhaid i mi ddiolch i bawb am fod yn bobl mor dda ac i fyw'r profiadau hyn gyda fi. Diolch o galon i Mr. Gravell a Mr. Evans am wneud hyn yn bosibl. Ces i amser ffantastig, gobeithio gweld chi eto!

Agustina Torá

# ‘Helo’ gan Hywel!



Anodd yw dechrau rhywbeth fel hyn bob tro, ysgrifennu dyddiadur bach o fy hanes ers gadael y Wladfa nôl ym mis Rhagfyr 2009. Ond dyna ni, mae’r frawddeg gyntaf wedi ei hysgrifennu a rwyf wedi dechrau ar y daith. Fel roedd rhai yn gwybod, mi aethom i deithio ychydig o amgylch Ariannin, Chile ac Uruguay yn ystod ein mis cyn hedfan nôl i Gymru fach. Er dweud hyn, cawsom bedair wythnos anhygoel o weld rhannau newydd o’r byd, Bariloche, Osorno, Santiago de Chile, Valpariso, Mendoza, Cordoba, Rosario, Montevideo, Colonia a Buenos Aires. Rhaid dweud mai cysgu wnes i ar yr awyren yr holl ffordd adref!

Ar ôl cyrraedd adref, mi roeddwn i’n ffodus i fynd nôl i fy ngwaith blaenorol fel Swyddog Ieuenctid Gwersyll yr Urdd Caerdydd, ac aeth Elin yn ôl i’w gwaith fel trefnydd Cyflwyno yn S4C. Hefyd cefais wahoddiad i fod yn ysgrifennydd Pwyllgor dathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu’r Wladfa, a fydd yn trefnu dathliadau ar gyfer y flwyddyn 2015. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Roedd priodas i’w threfnu!

Ar ôl blwyddyn o gynilo arian a threfnu popeth, daeth y cyfan i’w ben ar Fehefin 25 eleni. Mi roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy gyda chymaint o’n ffrindiau a’n teulu yno yn dathlu gyda ni. Priodom ni’n Eglwys Croes y Waun, Waunfawr, Caernarfon cyn teithio draw i Bwllheli ar gyfer y wledd a’r parti nos. Ac am barti. Roeddem ni hyd yn oed wedi cael gafael ar boteli o Quilmes! Ar ôl y diwrnod mawr, mi gawsom ni fis mêl bach lawr yng Nghastell Newydd Emlyn, gan deithio o amgylch yr ardaloedd gwahanol. Erbyn hyn rydym yn edrych ymlaen at ein mis mêl mawr - nôl i Dde America. Yn anffodus i bawb, mi fydda i a fy ngwraig yn ôl yn y Wladfa ym mis Hydref, ac yn edrych ymlaen gymaint!

A dyna ni! Mae Elin a finnau’n cyfri’r diwrnodau i ddod nôl atoch chi. Mae hi wedi bod yn rhy hir ers bod draw ddiwethaf!

Hywel Roberts

# Pen Blwydd yr Ysgol Feithrin

Dathlodd Ysgol Feithrin y Gaiman yn ei phen blwydd yn 18 oed ar y 23ain o Awst.

Cafodd yr ysgol ei sefydlu yn 1993 gan Mary Zampini a gyda chymorth Cymdeithas Camwy a Chyngor y Dref, gan fod rhai teuluoedd eisiau magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Un o ystafelloedd yr Ysgol Gerdd oedd cartref cyntaf yr Ysgol Feithrin, ond erbyn hyn mae hi wedi symud drws nesaf, ac wedi tyfu’n dri dosbarth - dosbarth coch, dosbarth gwyrdd, a dosbarth melyn.



Ymunodd plant a rhieni’r ysgol, a phlant yr ôl-feithrin, â’r parti yn Eglwys Fethodistaidd y Gaiman, lle’r oedd castell bownsio a gwahanol gemau. Roedd hefyd digon i’w fwyta, a theisen fawr - diolch i Lidia Muños! Aeth pawb adref yn hapus, gyda losin yn anrheg i gofio’r digwyddiad arbennig.

Pen blwydd Llawen i’r Ysgol Feithrin!

# Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011




Bu'n wythnos brysur ym mhabell Cymdeithas Cymru-Ariannin yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Bu nifer o'r Wladfa yn ymweld â ni - Rini Griffiths, Jeremy Wood, a Tomos o Esquel ; Clare Whitehouse a Victor o Drevelin; Alcira Williams ac Elizabeth Fernandez o'r Dyffryn, a Fernando Williams a Guillermo Williams o Buenos Aires. Ymhlith eraill ymwelodd Arwyn - mab y diweddar Barch. Trebor Mai Thomas (a anwyd yn y Wladfa) ac Archentwr arall oedd yn byw yn yr Eidal - heb unrhyw gysylltiad Cymreig, ond yn siarad Cymraeg yn rhugl ar ôl dysgu trwy'r wefan www.saysomethinginwelsh.com

Paratowyd arddangosfa ar *y Drafod* gan Walter Brooks, gan ei bod yn dathlu 120 mlynedd, a rhoddodd sgwrs ddiddorol yn y Cyfarfod Blynyddol hefyd am y papur. Bydd testun yr arddangosfa ar gael cyn hir ar wefan y Gymdeithas www.cymru-ariannin.org Bu rhai o deulu Irma sy'n byw yng Nghymru yn gweld yr arddangosfa.



Cafwyd tri digwyddiad yn y babell. Sgwrs gan Clare am y Cynllun Dysgu Cymraeg - mae swyddi 2012 newydd eu hysbysebu www.safleswyddi.com. Bryn Ellis, hanesydd lleol o'r Trallwng yn sôn fel y darganfu ei deulu yn Chubut tra roedd ef a'i wraig, Beryl ar ymweliad yn 2000. Roedd yn perthyn i Eleri Williams de Thomas, Tŷ Te Cymreig y Gaiman, a'r chwiorydd Freeman yn yr Andes.  A lansiwyd cyfrol Fernando Williams, Buenos Aires (a Threlew) '*Entre el desierto y el jardin*'.

Llongyfarchiadau i Luned Gonzalez a enillodd  y gystadleuaeth i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes. Y teitl eleni oedd 'Byw yn y Wladfa heddiw'.


Wythnos lwyddiannus!  A dyna ni tan Eisteddfod Bro Morgannwg 4-11 Awst 2012.

Beth am i chi gystadlu ar y gystadleuaeth i Wladfawyr - y testun yw 'Achlysur i'w gofio' (heb fod yn llai na 1,500 o eiriau) ar ffurf traethawd, cyfres o negeseuon e-bost, neu flog. Gwobr: £200 (Cymdeithas Cymru-Ariannin - Gwobr Goffa Shan Emlyn)  Beirniad: Gwilym Roberts.

Anfonwch y darnau cyn 1 Mai 2010 at:
Ceris Gruffudd (Ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin)
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch. ABERYSTWYTH, Ceredigion, SY23 3HE
Rhoshelyg@btinternet.com.

Ceris Gruffudd

# Ffion yn gwirfoddoli




Bu Ffion Bevan a'i rhieni, Geraint a Devra, yn y Gaiman yn ddiweddar. Roedd Ffion, sy'n ddisgybl yn Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin, yn gwirfoddoli yn yr Ysgol Gerdd ac yn yr Ysgol Feithrin am dair wythnos.  Canodd y ffidil mewn sawl digwyddiad a chyngerdd hefyd.

Diolch yn fawr iddi am ei gwaith a'i chwmni, ac am ein diddanu ni gyda sain soniarus y ffidil!  Pob hwyl yn yr ysgol!

## Cornel y Dysgwyr *Rincon de aprenda Galés*

### Y Rhifau / Los Números

| | | |
|---|---|---|
| Un | 1 | *Un* |
| Dau | 2 | *Dos* |
| Tri | 3 | *Tres* |
| Pedwar | 4 | *Cuatro* |
| Pump | 5 | *Cinco* |
| Chwech | 6 | *Seis* |
| Saith | 7 | *Siete* |
| Wyth | 8 | *Ocho* |
| Naw | 9 | *Nueve* |
| Deg | 10 | *Diez* |



Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...


***Gwalia Lân***

**Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.**



**Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**

**TeithiauTango**
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED

www.teithiautango.co.uk

**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo mewn teithiau i'r Wladfa.**

**Nwyddau ar gyfer ffermwyr**

**camposur**
SERVICIOS AGROPECUARIOS
**CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.**



***Plas-y-Coed***

**Tŷ Te hynaf Gaiman.**

**Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.**

**Heol Michael D. Jones, Gaiman**



# Pwdin Bara Menyn

Cynhwysion:

6 tafell o fara gwyn
Menyn i daenu ar y bara
25g siwgr gwyn
2 lwy fwrdd o reisins
2 ŵy
425ml llaeth
1-2 llwy fwrdd o siwgr brown

Taenwch y menyn ar y bara a thorrwch y tafelli'n dri darn.

Rhowch hanner y bara menyn ar waelod y fowlen, yna'r siwgr gwyn a'r reisins ar ei ben, a gweddill y bara menyn ar y top.

Cymysgwch yr wyau yn dda mewn bowlen arall ac ychwanegu'r llaeth atyn nhw, yna eu cymysgu eto. Arllwyswch y cyfan dros y bara, a gadewch iddo sefyll am 15 -20 munud.

Rhowch y siwgr brown ar ben y cyfan. Coginiwch y pwdin yn y ffwrn ar farc nwy 3 am 35-40 munud, nes ei fod yn troi'n frown.

Bwytewch ar ei ben ei hun, neu gyda hufen-iâ, neu gwstard poeth.

Beth am ddefnyddio siocled, neu jam llaeth yn lle menyn?
A thafelli o fara brith neu deisen ddu yn lle bara!

# Cymru v Ariannin



Roedd bwrlwm yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Awst, wrth i Gymru groesawu'r Ariannin i Stadiwm y Mileniwm ar gyfer gêm rygbi gyfeillgar.

Er mai Cymru oedd y ffefrynnau cyn y gêm, Ariannin oedd y tîm gorau am yr hanner awr gyntaf. Methodd capten y Pumas, Felipe Contepomi gyda'i ddwy gic gosb gyntaf, a'r cyfle i fynd ar y blaen, o fewn y chwe munud agoriadol. A methodd y canolwr, Marcelo Bosch, gic adlam ar ôl 17 munud. Sgoriodd neb yn ystod yr hanner awr cyntaf, ond llwyddodd Contepomi gyda chic gosb i roi Ariannin ar y blaen. Methodd gic arall bedair munud yn ddiweddarach. Yna sgoriodd Cymru ddau gais cyflym drwy Andy Powell ac Alun-Wyn Jones, a oedd yn ergyd i'r Pumas. Trosodd James Hook y ddau, a'r sgôr yn 14-3 hanner amser.


Bedair munud i mewn i'r ail hanner, llwyddodd Hook gyda chic gosb, ac un arall 10 munud wedyn. Roedd y sgôr yn 20-3, a'r gêm fwy neu lai ar ben fel cystadleuaeth. Sgoriodd Contepomi gic gosb arall, ond gydag wyth munud ar ôl, ac amddiffyn Ariannin wedi blino, croesodd George North y llinell i sgorio cais arall i Gymru.

Ar ôl 76 munud, sgoriodd Martin Scelzo gais cysur i Ariannin, a Contepomi yn ei drosi. Ond Hook gafodd y gair olaf gyda chic gosb yn ystod eiliadau olaf y gêm.

**Cymru 28 Ariannin 13**

**Menna Davies**

# Croesair Gwledydd



**AR DRAWS:**

1. MAEN NHW'N SIARAD RWSIEG YMA (5)
4. ISLANDIA (5, 2, 2)
6. MAE WEDI'I RHANNU YN 'YNYS Y GOGLEDD' AC 'YNYS Y DE' (6, 5)
8. Y TAIR FFIN: ARIANNIN, PARAGUAY, A ____ (6)
9. MAE'R COLOSEO A THŴR PISA YN Y WLAD HON (5)
12. DULYN YDY'R BRIF DDINAS (7)
13. YR UNIG YNYS YM MÔR Y DE SYDD Â BRENIN (5)
15. MAE DEILEN MASARN *(ARCE)* AR Y FANER (6)
16. MAE MACHU PICCHU YN Y WLAD HON (5)
17. DAW CYRI YN WREIDDIOL O'R WLAD HON (5)
18. ENILLWYR CWPAN Y BYD PÊL-DROED 2010 (5)

**I LAWR:**

2. GWLAD YR HAUL SY'N CODI (6)
3. MAE'R PYRAMIDIAU YMA (4)
4. ATHEN YDY'R BRIF DDINAS (5, 5)
5. MAE'R WLAD HON YN EDRYCH FEL HEN DDYNES (5)
7. CANGARŴ A COALA (9)
10. MAE CAMLAS ENWOG YMA (6)
11. MAE DYFFRYN CAMWY YMA (8)
14. NORUEGA (5)

**Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!**

## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| trigolion | *residentes* | o bedwar ban byd | *de todo el mundo* |
| ymsefydlu | *asentar* | allweddellau | *piano eléctrico* |
| dehongliad(au) | *interpretación(es)* | rhwystro | *evitar* |
| helfa drysor | *búsqueda del tesoro* | cofleidio | *abrazar* |
| anrhydeddu | *honor* | penysgafn | *mareado* |
| gweini | *servir* | blaenorol | *anterior* |
| detholiad | *selección* | cynilo | *ecomonizar* |
| gorymdaith | *desfile* | castell bownsio | *castillo inflable* |
| blynyddol | *anual* | yn rhugl | *fluido* |
| gohirio | *posponer* | arddangosfa | *exposición* |
| cymeradwyaeth | *aplauso* | gwirfoddoli | *voluntario* |
| byddarol | *ensordecedor* | taenu | *untar* |
| achlysur | *ocasión/evento* | ychwanegu | *añadir* |
| cyfansoddi | *componer* | arllwys | *derramar* |
| ffefryn | *favorito* | cic gosb/adlam | *penal/'drop kick'* |
| cais (cysur) | *'try'* | sgorio | *puntaje* |

# Cornel y Plant


Llongyfarchiadau mawr i

**Iestyn Néstor Evans**

ar ennill y wobr am liwio llun Tomos y Tanc!

## Lliwiwch Smot!

Anfonwch y llun wedi'i liwio gyda'ch enw at Lois Dafydd erbyn 20 Medi am gyfle i ennill gwobr.



# Chwilair y Tywydd

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| f | e | r | s | d | f | s | w | u | c | s | l | t | gwynt<br>eira |
| n | i | w | l | a | r | g | i | l | y | p | u | d | haul<br>glaw |
| b | d | h | g | l | a | w | d | p | m | n | s | f | cymylau<br>niwl |
| w | b | n | l | p | r | y | f | g | y | ff | c | g | enfys<br>storm |
| m | e | i | r | a | c | n | i | w | l | h | n | b | |
| i | n | l | p | s | w | t | e | t | a | j | r | w | |
| w | f | c | f | d | r | h | a | u | l | e | h | t | |
| c | y | w | p | ch | w | b | n | r | u | h | t | p | |
| b | s | t | o | r | m | s | c | i | m | d | y | l | |

Os hoffech chi gyfrannu unrhyw beth at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198